Cynllun Strategol Uned Addysg Ariannol Cymru (UAAC) 2009–11



Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cynllun Strategol Uned Addysg Ariannol Cymru (UAAC) 2009–11

Cynulleidfa

Athrawon, penaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir; colegau; awdurdodau lleol; darparwyr hyfforddiant cychwynnol i athrawon; undebau athrawon a chyrff sy'n cynrychioli ysgolion; ColegauCymru/CollegesWales; awdurdodau esgobaethol eglwysi; cyrff cenedlaethol yng Nghymru sydd â diddordeb mewn addysg.

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r weledigaeth a'r cynlluniau gweithredu ar gyfer gwaith Uned Addysg Ariannol Cymru (UAAC) hyd at Ebrill 2011. Mae'r Uned yn cael ei chyllido ar y cyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) a'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (AGA).

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
UAAC
Yr Is-adran Cwricwlwm ac Asesu
Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: UAAC@cymru.gsi.gov.uk

Copïau ychwanegol

Gellir lawrlwytho copïau ychwanegol o'r ddogfen hon oddi ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru
www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

Dogfennau cysylltiedig

Mae pawb yn cyfrif: Strategaeth Cynhwysiant Ariannol i Gymru; Fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru; *Gyrfaoedd a'r byd gwaith: fframwaith i bobl ifanc 11 i 19 oed yng Nghymru*; *Gyrfaoedd a'r byd gwaith: Canllawiau atodol; Mathemateg yn y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru*

Prif lun ar y clawr trwy garedigrwydd www.freeimages.co.uk

75% wedi'i ailgylchu recycled

Cyf: CAD/GM/0094
ISBN: 978 0 7504 5359 2

A-EAC-02-01-qA794857/1/ND
© Hawlfraint y Goron Tachwedd 2009

Cynnwys

(Cliciwch ar y penawdau isod i fynd yn syth i'r testun hynny yn y ddogfen)

Cyflwyniad **2**

Cynhwysiant ariannol 2

Uned Addysg Ariannol Cymru **4**

Nodau a thargedau 4

Cerrig milltir allweddol 5

Manylion cyswllt Uned Addysg Ariannol Cymru 7

Atodiad 1: *Mae pawb yn cyfrif: Strategaeth Cynhwysiant Ariannol i Gymru* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, Gorffennaf 2009) **8**

Cyflwyno'r cefndir 8

Atodiad 2: Crynodeb o'r deilliannau dysgu ar gyfer addysg ariannol i bobl ifanc 7 i 19 oed gan ategu'r sgiliau a'r deilliannau yn y Cyfnod Sylfaen **10**

Fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru 10

Y Gorchymyn pwnc mathemateg ar gyfer dysgwyr 7 i 16 oed 11

Gyrfaoedd a'r byd gwaith: fframwaith i bobl ifanc 11 i 19 oed yng Nghymru 11

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r weledigaeth a'r cynlluniau gweithredu ar gyfer gwaith Uned Addysg Ariannol Cymru (UAAC) hyd at Ebrill 2011. Mae'r Uned yn cael ei chyllido ar y cyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) a'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (AGA).

Cynhwysiant ariannol

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo'n llwyr i fynd i'r afael ag allgáu ariannol. Mae'r ddogfen *Mae pawb yn cyfrif: Strategaeth Cynhwysiant Ariannol i Gymru*, yn rhoi ymrwymiad clir i fynd i'r afael â'r rhwystrau i gynhwysiant ariannol a chefnogi'r rhai na fedr fforddio gael eu hallgáu'n ariannol.

Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, mae gwneud penderfyniadau ariannol da yn bwysicach nag erioed o'r blaen. Dylai pawb ddeall eu hawliau a'u cyfrifoldebau, gwybod ble i fynd am gymorth os oes ei angen arnyn nhw a gwylio rhag unrhyw gynigion sy'n edrych yn 'rhy dda i fod yn wir'. Ein gweledigaeth ni yw bod pob un o'n dinasyddion yn gallu cael gafael ar gynhyrchion ariannol fforddiadwy gan ddangos yr hyder a'r gallu i'w defnyddio'n ddiogel ac yn gyfrifol. Rydym am i bobl allu cynllunio ar gyfer eu dyfodol gydag elfen resymol o ddiogelwch a chael yr wybodaeth gywir a'r sgiliau er mwyn osgoi mynd i drafferthion ariannol.

Fe welwch grynodeb o'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol yn Atodiad 1 ac am wybodaeth bellach ar y strategaeth, ewch i: www.cymru.gov.uk/taiachymunedau

Gallu ariannol

Y conglfaen ar gyfer cynhwysiant ariannol yw gallu pobl i ddeall y dewisiadau ariannol sydd ar gael iddyn nhw. Mae gallu ariannol yn golygu:

- gallu rheoli arian
- cadw golwg ar gyllid
- blaengynllunio
- gwneud penderfyniadau gwybodus am gynhyrchion ariannol
- cael yr wybodaeth ddiweddaraf am faterion ariannol.

Yn ôl i'r dudalen 'Cynnwys'

Trwy wella gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth o faterion ariannol, mae pobl mewn sefyllfa well i wneud penderfyniadau gwybodus a bod yn ddefnyddwyr hyderus.

Mae'r AGA, sef rheolydd ariannol annibynnol y DU, yn arwain strategaeth genedlaethol mewn partneriaeth â'r llywodraeth, y diwydiant gwasanaethau ariannol a grwpiau gwirfoddol, defnyddwyr ac addysg i wella gallu ariannol y boblogaeth. Mewn partneriaeth â Llywodraeth Cynulliad Cymru mae'r AGA yn cydweithio ag ymarferwyr mewn colegau, lleoliadau ieuenctid a phrifysgolion i dargedu pobl ifanc a dysgwyr er mwyn sicrhau bod cymorth a chefnogaeth yn cyrraedd cyn i argyfwng godi.

Addysg ariannol (i ddysgwyr 7 i 19 oed)

Mae gan ysgolion a cholegau gyfle unigryw i feithrin agweddau cadarnhaol tuag at gyllid o oedran ifanc ac i gyrraedd pob adran o'r gymdeithas, gan gynnwys nifer o unigolion y gall fod yn fwy anodd eu cyrraedd yn nes ymlaen.

Felly, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cymryd camau i sicrhau bod addysg ariannol yn cael ei phlannu yn y cwricwlwm diwygiedig a gyflwynwyd mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru o fis Medi 2008. Gan ategu'r sgiliau a'r deilliannau yn y Cyfnod Sylfaen, mae addysg ariannol wedi ei gynnwys yn rhan o'r Gorchymyn mathemateg 7 i 16 oed. Mae agweddau ar addysg ariannol hefyd wedi eu cynnwys yn TGAU Mathemateg, a'r fframweithiau perthnasol sy'n gymwys i ysgolion a'r sector addysg bellach – *Fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru* a *Gyrfaoedd a'r byd gwaith: fframwaith i bobl ifanc 11 i 19 oed yng Nghymru*. Felly dylai ysgolion a cholegau ddatblygu gwybodaeth a sgiliau dysgwyr o fewn disgyblaethau penodol ac achub ar gyfleoedd i gynyddu ar hyn trwy feithrin ymagweddau trawsgwricwlaidd at ddysgu. Mae Atodiad 2 yn rhoi trosolwg o'r cyfleoedd i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o gyllid personol yn y fframweithiau ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol, gyrfaoedd a'r byd gwaith a'r Gorchymyn mathemateg.

Yn ôl i'r dudalen 'Cynnwys'

Uned Addysg Ariannol Cymru

Mae Uned Addysg Ariannol Cymru (UAAC) wedi ei sefydlu fel un llinyn o strategaeth Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae wedi'i lleoli yng Ngrŵp Cymwysterau, Cwricwlwm a Gwella Dysgu Llywodraeth Cynulliad Cymru a chafodd ei sefydlu tan Ebrill 2011 yn y lle cyntaf, â'r nod o adolygu ei rôl a'i gylch gwaith bryd hynny.

I gychwyn, bydd yr Uned yn darparu rhaglen dreigl o gymorth a chyngor i gynllunio at ac i roi addysg ariannol ar waith i ddysgwyr 7 i 19 oed mewn ysgolion. Bydd y gwaith hwn yn cydfynd â'r ddarpariaeth yn y sector addysg bellach i ddysgwyr hyd at 19 oed. Bydd hyn yn sicrhau dilyniant a pharhad yn y dysgu i'r rhai sy'n symud o'r ysgol i addysg bellach fel rhan o'r llwybr dysgu 14–19.

Nodau a thargedau

Mae Uned Addysg Ariannol Cymru yn ceisio cefnogi ymarferwyr mewn ysgolion cynradd ac uwchradd er mwyn iddyn nhw allu darparu rhaglen wedi'i chynllunio a'i chydlynu o addysg ariannol sy'n rhoi'r gallu i ddysgwyr reoli eu cyllid a gwneud penderfyniadau ariannol gwybodus.

Er mwyn gwireddu'r nod hwn bydd yr Uned yn cydweithio ag ymarferwyr mewn ysgolion ac awdurdodau lleol, a gyda chydweithwyr mewn sefydliadau addysg bellach, y sector gwasanaethau ariannol a'r trydydd sector i:

- godi ymwybyddiaeth ymarferwyr o bwysigrwydd addysg ariannol a'r cymorth y gall UAAC ei ddarparu
- rhoi arweiniad a chyngor i ymarferwyr ar wneud y defnydd gorau o gyfleoedd ar gyfer addysg ariannol yn y cwricwlwm
- rhoi cyngor ar ddeunyddiau ac adnoddau addysgu priodol a chymorth ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus
- cydweithio â darparwyr adnoddau addysgu i ddatblygu adnoddau sy'n cydnabod cwricwlwm ac anghenion ieithyddol unigryw Cymru
- adnabod a lledaenu arferion da wrth ddarparu addysg ariannol ar draws Cymru a'r DU.

Yn ôl i'r dudalen 'Cynnwys'

Gan dynnu ar arfer da, a'r agwedd o wella ysgolion a nodir yn y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion, bydd yr Uned yn gweithio gyda phartneriaid allweddol i hyrwyddo cydweithio a gwella deilliannau i bob dysgwr. Bydd rhaglen waith yr Uned yn ategu at y strategaeth genedlaethol a arweinir gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol ac yn ceisio datblygu ar, a gwneud y defnydd gorau o sgiliau a phrofiadau'r sector gwasanaethau ariannol a'r trydydd sector.

Cerrig milltir allweddol

Rydym wedi amlinellu cynllun dwy flynedd. Erbyn Ionawr 2011, bydd gwerthusiad o effaith yr Uned wedi'i gwblhau i ddarparu'r sail ar gyfer adolygiad erbyn Ebrill 2011 a byddwn yn cynhyrchu argymhellion ar y camau nesaf.

Cerrig milltir ar gyfer 2009–10

Bydd Uned Addysg Ariannol Cymru yn:

1. Sefydlu Grŵp Llywio erbyn Medi 2009 gyda chynrychiolaeth o randdeiliaid allweddol i gynghori ar gynlluniau UAAC a monitro cynnydd.

2. Cynhyrchu a lledaenu, erbyn diwedd Mawrth 2010, ganllawiau i ymarferwyr ar ofynion a chyfleoedd yn y cwricwlwm ysgol i ddarparu addysg ariannol.

   Bydd y canllawiau yn dwyn ynghyd y ddarpariaeth yn y Gorchymyn mathemateg ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2, 3 a 4 a'r fframweithiau ar gyfer *Addysg bersonol a chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru* a *Gyrfaoedd a'r byd gwaith: fframwaith i bobl ifanc 11 i 19 oed yng Nghymru*. Bydd hefyd yn rhoi cyngor ar gyfleoedd trawsgwricwlaidd i ddarparu addysg ariannol.

3. Datblygu, erbyn diwedd Mawrth 2010, raglen dreigl o gymorth ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd ar ddarparu addysg ariannol.

   Mae gwaith paratoi i dreialu amrywiaeth o ddulliau cefnogi addysg ariannol, cydweithio ag awdurdodau lleol ac ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig eisoes ar droed. Mae'r treialu yn cynnwys defnyddio HMS awdurdod lleol, gweithio mewn clystyrau lleol a chymorth ymgynghorol a chyngor i ysgolion unigol. Bydd gwerthuso'r treialon hyn yn llywio gwaith yr Uned yn y dyfodol.

Yn ôl i'r dudalen 'Cynnwys'

4. Hybu'r gwasanaethau cymorth a ddarperir gan yr Uned trwy:

    - sefydlu presenoldeb ar y we a fydd yn cynnwys cyfeiriadau at adnoddau ac yn dolenni at GCaD Cymru erbyn diwedd Mawrth 2010
    - sefydlu a chynnal cyswllt effeithiol â'r rhwydweithiau cynghorwyr Cymru gyfan ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) a mathemateg
    - datblygu cysylltiadau â sefydliadau allweddol sy'n ymwneud â darparu addysg ariannol mewn ysgolion ar draws y DU. Bydd y rhwydweithiau hyn yn cynnig modd i rannu gwybodaeth a lledaenu negeseuon allweddol i staff addysgu
    - cyhoeddi erthyglau yn *Newyddion cwricwlwm ac asesu* APADGOS a chyfryngau priodol eraill.

5. Adrodd, erbyn Mawrth 2010, ar waith gyda darparwyr adnoddau addysgu yn y sector gwasanaethau ariannol a'r trydydd sector i gefnogi'r gwaith o ddatblygu ac addasu adnoddau addysgu sy'n addas i'w defnyddio yng Nghymru.

    Bydd yr Uned yn datblygu cysylltiadau â darparwyr adnoddau, yn annog ac yn cefnogi fersiynau Cymraeg o adnoddau o ansawdd sy'n adlewyrchu cwricwlwm unigryw Cymru. Bydd adroddiad cynnydd yn cael ei ddarparu i'r Grŵp Llywio erbyn diwedd Mawrth 2010.

6. Datblygu, erbyn Hydref 2009, mewn trafodaeth ag Estyn a phartneriaid allweddol eraill, fanyleb ar gyfer canllawiau ar arferion da wrth ddarparu addysg ariannol, wedi'i hategu gan astudiaethau achos a chynigion ar gyfer cynhyrchu canllawiau o'r fath gan Estyn yn 2010–11.

Cerrig milltir ar gyfer 2010–11

Bydd Uned Addysg Ariannol Cymru yn:

- gweithredu o fis Ebrill 2010 y flwyddyn gyntaf lawn o'r rhaglen gymorth i ysgolion cynradd ac uwchradd wedi'i datblygu a'i chytuno yn 2009–10
- parhau i ehangu presenoldeb ar y we, erbyn diwedd Mawrth 2011, i ddarparu porth cydnabyddedig y gall ymarferwyr ei ddefnyddio wrth gyrchu cyngor ac adnoddau addysgu i gefnogi darparu addysg ariannol yng Nghymru

Yn ôl i'r dudalen 'Cynnwys'

- adrodd, erbyn diwedd Mawrth 2011, ar waith parhaus gyda darparwyr adnoddau addysgu yn y sector gwasanaethau ariannol a'r trydydd sector i gefnogi'r gwaith o ddatblygu adnoddau addysgu i'w defnyddio gyda phobl ifanc mewn addysg llawn amser sy'n addas i'w defnyddio yng Nghymru. Bydd adroddiad cynnydd yn cael ei ddarparu i'r Grŵp Llywio erbyn diwedd Mawrth 2011
- cyhoeddi, erbyn diwedd Mawrth 2011, ganllawiau ar arferion da wrth ddarparu addysg ariannol i bobl ifanc 7 i 19 oed sydd yn yr ysgol. Bydd y canllawiau yn nodi'r cysylltiadau gyda mentrau teuluol a gyda mentrau dysgu ehangach sydd â ffocws cymunedol.

Manylion cyswllt Uned Addysg Ariannol Cymru

Mae gwybodaeth bellach ar gael drwy e-bostio UAAC@cymru.gsi.gov.uk

Philip Aubrey yw'r Cynghorydd Cyllid Addysg yn UAAC ar gyfer dysgwyr 11 i 19 oed mewn addysg llawn amser.

Gaynor Murphy yw'r Cynhghorydd Cyllid Addysg ar gyfer y sector cynradd.

Yn ôl i'r dudalen 'Cynnwys'

Atodiad 1: *Mae pawb yn cyfrif: Strategaeth Cynhwysiant Ariannol i Gymru* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, Gorffennaf 2009)

Cyflwyno'r cefndir

Mae Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Cymru yn amlinellu gweledigaeth, polisi a chynllun Llywodraeth Cynulliad Cymru i hybu cynhwysiant ariannol dros y tair blynedd nesaf. Mae'n cynnwys ein gweledigaeth i gyflawni'r ymrwymiadau a osodwyd yn y ddogfen *Cymru'n Un* ac yn gwneud gwir wahaniaeth i fywydau pobl yng Nghymru.

Ein Gweledigaeth ar gyfer Cynhwysiant Ariannol yng Nghymru yw cael:

System ariannol sy'n gweithio'n dda, yn hygyrch ac yn ddealladwy i bob un sy'n byw yng Nghymru, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u hymyleiddio o gymdeithas. Dylai'r system ariannol gynhwysol hon ddarparu ystod eang o gynhyrchion a gwasanaethau ariannol sy'n cael eu cefnogi gan wasanaethau addysg a chyngor ariannol hawdd eu cyrraedd a rhad ac am ddim i'w defnyddio.

Egwyddorion y Strategaeth

I helpu i gyflawni'r weledigaeth hon mae'r Strategaeth yn adnabod y meysydd allweddol lle mae angen gweithredu wedi'u seilio ar yr egwyddorion canlynol:

Cydraddoldeb a chynhwysiant

- Gwneud hi'n bosibl i bob dinesydd o Gymru gael mynediad i wasanaethau ariannol, addysg ariannol a gwasanaethau cynghori.
- Herio arferion gwael a gwahaniaethu o ran cael mynediad i wasanaethau a chyngor.

Gwneud y defnydd mwyaf o adnoddau

- Defnyddio'r holl gyllid sydd ar gael i hybu'r nod o gynhwysiant ariannol.
- Targedu a dyrannu adnoddau i wasanaethau a sefydliadau sydd yn y sefyllfa orau i gyflawni canlyniadau.
- Annog gwybodaeth ac arferion gorau o weithgaredd cynhwysiant ariannol sy'n bodoli eisoes.

Yn ôl i'r dudalen 'Cynnwys'

Gweithio mewn partneriaeth

- Ystyried cyfleoedd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth ar lefel leol a chenedlaethol, gan ddwyn ynghyd arbenigedd ac ymrwymiad pob asiantaeth sydd â budd mewn hybu cynhwysiant ariannol.
- Adnabod bylchau yn y gwasanaethau a ddarperir a gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael i ateb yr anghenion hynny.

Mae'r Strategaeth yn canolbwyntio ar bum thema graidd sef:

- mynediad i wasanaethau ariannol prif ffrwd
- mynediad i gredyd a benthyciadau fforddiadwy
- cyngor ariannol a dyled hygyrch
- gallu/llythrennedd ariannol
- gwneud y mwyaf o incwm.

Nodau'r Strategaeth

Nodau cyffredinol y Strategaeth yw:

- hwyluso ymateb cyfannol a chydlynol cyd-asiantaeth at gynhwysiant ariannol
- mynd i'r afael ag achosion allgáu ariannol a lleihau allgáu ariannol yng Nghymru
- gwella'r ddarpariaeth gyfredol o wasanaethau cymorth i bawb sy'n profi anawsterau o ganlyniad i gael eu hallgáu'n ariannol
- ymateb i'r heriau ychwanegol i gynhwysiant ariannol sy'n cael eu creu gan y dirwasgiad economaidd presennol.

At bwy mae'r Strategaeth wedi'i hanelu?

Mae'r Strategaeth wedi'i hanelu at bob rhanddeiliad allweddol gan gynnwys Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru, awdurdodau lleol, cymdeithasau tai, darparwyr cyngor, swyddfeydd post, banciau, cwmnïau cyfleustodau, sefydliadau cymunedol, Partneriaethau Cymunedau'n Gyntaf ac undebau credyd.

Yn ôl i'r dudalen 'Cynnwys'

Atodiad 2: Crynodeb o'r deilliannau dysgu ar gyfer addysg ariannol i bobl ifanc 7 i 19 oed gan ategu'r sgiliau a'r deilliannau yn y Cyfnod Sylfaen

Fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru

7 i 11 oed

Rhoi cyfle i'r dysgwyr ddeall:

- bod arian yn cael ei ennill trwy weithio ac y gall arian brynu nwyddau a gwasanaethau
- pwysigrwydd gofalu am eu harian a'r manteision sy'n gysylltiedig â chynilo arian yn rheolaidd.

11 i 14 oed

Rhoi cyfle i'r dysgwyr ddeall:

- canlyniadau economaidd a moesegol y penderfyniadau ariannol personol y maent yn eu gwneud fel defnyddwyr, e.e. Masnach Deg
- sut i reoli'u materion ariannol personol yn fedrus a sylweddoli bod cynilo arian yn arwain at annibyniaeth ariannol.

14 i 16 oed

Rhoi cyfle i'r dysgwyr ddeall:

- eu hawliau fel defnyddwyr a'u cyfrifoldebau o safbwynt rheoli cyllideb
- pwysigrwydd cynllunio ar gyfer eu dyfodol ariannol, a sut i gael gafael ar gyngor ariannol.

16 i 19 oed

Rhoi cyfle i'r dysgwyr ddeall:

- y cyfleoedd perthnasol sydd ar gael iddynt ym maes addysg, hyfforddiant a byd gwaith
- eu hannibyniaeth gynyddol o safbwynt rheoli eu materion ariannol personol a chael gafael ar gredyd.

Yn ôl i'r dudalen 'Cynnwys'

Y Gorchymyn pwnc mathemateg ar gyfer dysgwyr 7 i 16 oed

7 i 11 oed

Rhoi cyfle i'r dysgwyr:

- wybod a defnyddio'r ffordd gonfensiynol o gofnodi arian
- cael hyd i ddatrysiadau bras, a defnyddio'r pedwar gweithrediad i ddatrys problemau sy'n cynnwys arian
- deall arddangoswr cyfrifiannell mewn perthynas ag arian
- bod yn ymwybodol o arian cyfredol arall.

11 i 14 oed

Rhoi cyfle i'r dysgwyr:

- ddeall a defnyddio'r ffordd gonfensiynol o gofnodi arian
- cyfrifo gydag arian a datrys problemau sy'n ymwneud â chyllidebu, cynilo a gwario a chyfraddau cyfnewid arian
- dehongli arddangoswr cyfrifiannell mewn perthynas ag arian.

14 i 16 oed

Rhoi cyfle i'r dysgwyr:

- ddeall a defnyddio'r ffordd gonfensiynol o gofnodi arian
- cyfrifo gydag arian a datrys problemau sy'n ymwneud â chyllidebu, cynilo a gwario, gan gynnwys cyfraddau cyfnewid arian, elw a cholled, disgownt, hurbwrcas, cynigion gorau, biliau cartref ac adlog
- dehongli arddangoswr cyfrifiannell mewn perthynas ag arian a chanlyniadau menter gyrfaoedd a'r byd gwaith.

Gyrfaoedd a'r byd gwaith: fframwaith i bobl ifanc 11 i 19 oed yng Nghymru

11 i 14 oed

Rhoi cyfle i'r dysgwyr:

- archwilio priodoleddau entrepreneuriaid a rôl menter o ran creu cyfoeth.

Yn ôl i'r dudalen 'Cynnwys'

14 i 16 oed

Rhoi cyfle i'r dysgwyr:

- archwilio rôl menter/creu cyfoeth a datblygu eu gallu eu hunain i weithredu mewn ffyrdd entrepreneuraidd.

16 i 19 oed

Rhoi cyfle i'r dysgwyr:

- gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n hybu ymagwedd entrepreneuraidd at waith a chreu cyfoeth.

Yn ôl i'r dudalen 'Cynnwys'